**Sesiwn 2000-2001 Rhif 07**

**PAPURAU BUSNES**

**PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 6 MEHEFIN 2000**

**RHAN 2 – ADRAN H**

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd:**
**Gan fod y Prif Ysgrifennydd i ffwrdd ar Fusnes yn Awstralia cymerwyd ei le gan y Trefnydd**

**Talodd y Trefnydd deyrnged i Dafydd Wigley, ar ran y Prif Ysgrifennydd, yn dilyn ei benderfyniad i roi'r gorau i fod yn Llywydd Plaid Cymru**

Gofynnwyd y **7** cwestiwn cyntaf

**2.40pm**
**Cwestiwn Brys I'r Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff yr Ysgrifennydd Amaeth ddatganiad ar ddyfodol Tir Mynydd

**3.07pm**
**Mater O Drefn**
Cododd Karen Sinclair fater o drefn gan ofyn pa bryd y byddai'r clociau newydd yn cael eu gosod yn y Siambr ac at ba ddiben**.**

Cadarnhaodd y Llywydd y byddai'r clociau yn cael eu gosod cyn i'r Cynulliad dorri ar gyfer yr haf. Aeth ati i gadarnhau bod angen y clociau er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn glynu at y canllawiau a nodwyd yn Rheol Sefydlog 7.3 a'r Cod Ymddygiad ar hyd areithiau.

**3.10pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.17pm**

**Dadl ar y Loteri Genedlaethol**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi:-

- Yr ystod o ddosbarthwyr loteri sy'n gweithredu yng Nghymru; a
- Y cyfraniad y mae cyllido gan y loteri wedi gwneud i fywyd cymdeithasol ac economaidd pobl Cymru.

Yng ngoleuni hyn, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn annog y sefydliadau sy'n dosbarthu'r loteri i barhau i ddyrannu'u cyllid i gefnogi prif amcanion y Cynulliad Cenedlaethol fel y'u nodir yn "Gwell Cymru".

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion);**
Ychwanegu ar ddiwedd y pwynt bwled cyntaf:

' a gofyn i'r dosbarthwyr hynny i dargedu'r ardaloedd sydd o dan anfantais

cymdeithasol ac economaidd'

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ar ôl y pwynt bwled cyntaf ychwanegu:

- pwysigrwydd hanfodol yr egwyddor o ychwanegolrwydd er mwyn sicrhau nad yw arian y loteri yn cymryd lle ymrwymiadau presennol y llywodraeth; a

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ar ôl y pwynt bwled cyntaf ychwanegu:

- y gwrthwynebiad cyffredin a fynegwyd yng Nghymru i benderfyniad y Llywodraeth i argyfeirio £29 miliwn o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, sy'n ariannu Clybiau ar ôl Ysgol a phrosiectau iechyd yng Nghymru, i Ddôm y Mileniwm yn Llundain; a

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion);**
Tynnu'r atalnod llawn o ddiwedd yr ail bwynt bwled ac ychwanegu:

'a gofyn i'r dosbarthwyr loteri yng Nghymru i ddatblygu ymhellach y ffordd strategol o ddyrannu cyllid, sy'n golygu buddiant cynaliadwy i'r cymunedau.'

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion);**
Yn y paragraff olaf, ychwanegu ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol' 'yn pwyso am gael mwy o arian i ddosbarthwyr loteri yng Nghymru, ac'

**Gwelliant 6 - Christine Humphreys (Gogledd Cymru);**
Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Cynnig bod y Cynulliad yn ceisio sicrhau: 1) bod holl arian y loteri yn ychwanegol at wariant y llywodraeth, ac yn nid yn cymryd ei le, 2) bod arian y loteri'n cael ei ddosbarthu'n gyfartal ledled Cymru

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 50 Ymatal 0 Yn erbyn 0 Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 2**

O Blaid 50 Ymatal 1 Yn erbyn 0 Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 3**

O Blaid 29 Ymatal 22 Yn erbyn 0 Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 4**

O Blaid 51 Ymatal 0 Yn erbyn 0 Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 5**

O Blaid 51 Ymatal 0 Yn erbyn 0 Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 6**

O Blaid 51 Ymatal 0 Yn erbyn 0 Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd y gwelliant 6**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 52 Ymatal 0 Yn erbyn 0 Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.24pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mercher, 7 Mehefin 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

## DEISEB I’R CYNULLIAD

### Deiseb gyda 13,500 o enwau i atal carthu tywod oddi ar Benrhyn Gwyr

MAE’R DDEISEB A ATGYNHYRCHIR ISOD YN YR IAITH Y’I CYFLWYNWYD HI I’R CYNULLIAD.

**We, the undersigned, implore the Members of the Welsh Assembly to safeguard the wellbeing of our Gower Beaches, which are the inheritance we must leave for future generations to enjoy, by denying further removal of sand by dredging off the coast of the Gower Peninsular.**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 31 MAI 2000**
Report of the Health and Social Services Committee - A Children's Commissioner for Wales - Nid oes copi Cymraeg ar gael

The Horticultural Development Council (Amendment) Order 2000 - Nid oes copi Cymraeg ar gael

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 26 MAI 2000**
Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000

Gorchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) (Cymru) 2000

Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000

Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000

The British Wool Marketing Scheme (Amendment) Order 2000 - Nid oes copi Cymraeg ar gael
Adroddiad I'r Pwyllgor Deddfau (LC62) - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau Taladwy) (Cymru) 1999
Adroddiad I'r Pwyllgor Deddfau (LC84) - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Dewis Ymarferydd Meddygol) Diwygio (Cymru) 2000
Adroddiad I'r Pwyllgor Deddfau (LC92) - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) Diwygio (Cymru) 2000

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 25 MAI 2000**
Adroddiad Cyntaf y Pwyllgor Safonau 2000